www.mantellgwynedd.com

Mantell

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 77 – Mai 2017

CYNNWYS

O Mantell	2
Newyddion	3
Canolfan Gwirfoddoli	4
Plant a Phobl Ifanc	5
Iechyd a Llesiant	6
Presgripsiwn Cymdeithasol Ardal Arfon	7
Canfod Gwerth Budd Cymdeithasol	8
Cyfleoedd Ariannu	9
Digwyddiadau ac Hyfforddiant	10

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

MANTELL GWYNEDD

Swyddfa Gofrestredig:

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon
Gwynedd LL55 1AB
Ffôn: 01286 672626
E-bost:
ymholiadau@mantellgwynedd.com

Swyddfa Gofrestredig:

Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt,
Dolgellau, Gwynedd LL40 1SB
Ffôn: 01341 422575
Gwefan:
www.mantellgwynedd.com

Facebook: **Mantellg**

Trydar: **@mantellgwynedd**

Mae'n braf cael rhannu newyddion da!

Mesur Measure · Effaith Impact · Dysgu Learning · Llesiant Well-being

SOCIAL VALUE CYMRU

Mae Mantell Gwynedd wedi llwyddo gyda chais i Gronfa Sgiliau Trydydd Sector y Loteri am £468,000.

Bydd yr arian yn golygu y byddwn yn gallu parhau i gyflogi Dr Adam Richards ac Eleri Lloyd i wneud gwaith mesur gwerth cymdeithasol ond byddwn hefyd yn cyflogi un swyddog newydd arall i fynd i'r afael â'r gwaith cyffrous yma.

Mae'r arian newydd yma yn golygu ein bod yn gallu rhannu y sgiliau unigryw sydd gennym gyda Chynghorau Gwirfoddol eraill ar draws Gogledd Cymru felly bydd y trydydd sector ar draws Gogledd Cymru yn cael budd o'r arian.

Ar amser pan mae comisiynwyr yn gofyn mwy nag erioed o dystiolaeth am werth yr hyn sydd cael ei ddarparu, mae y datblygiad yma yn newyddion ardderchog!

Cadwch olwg dros y misoedd nesaf am ragor o newyddion ac i weld sut y bydd y gwaith yn datblygu.

STAFF MANTELL GWYNEDD

Prif Swyddog:
Bethan Russell Williams

TÎM DATBLYGU A GWASANAETHAU

Uwch Swyddog Datblygu a Gwasanaethau:
Delyth Vaughan Rowlands

Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol:
Eleri Lloyd

Cyfrifydd Cymdeithasol:
Dr Adam Richards

TÎM IECHYD

Hwylusydd Iechyd a Llesiant:
Sioned Llwyd Larsen

Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol, Swyddog Cyswllt Cymunedol:
Rhian Griffiths

Swyddog Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol ED:
Mair Richards

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu:
Ceren Williams

Swyddog Gweinyddol:
Bronwen Rowlands

Cynorthwy-ydd Cyllid:
Tracy Williams

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:
Tracy Lynne Rotheram

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:
Ellen ap Dafydd

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI

Cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli:
Carwyn Humphreys

Swyddog Gwirfoddoli:
Gwenllian Glyn Dafydd

Deunydd i'r Rhifyn nesaf o Mantell

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw
22 MEHEFIN, 2017
Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**
Swyddog Mantell Dolgellau
e-bost:
ellenapdafydd@mantellgwynedd.com
Ffôn: **01341 422 575**

Pwt y Prif Swyddog

Wrth i'r ymgyrch Etholiadol gychwyn – a honno yn etholiad mor annisgwyl – mae'n siŵr fod 'na lawer yn gofyn os ydi pleidleisio yn gneud gwahaniaeth go iawn, ynteu oes na ffordd well o fedru newid pethau?

Mae 'na lawer ohonom yn cofio Russell Brand yn dweud wrth Jeremy Paxman na fu iddo erioed bleidleisio yn y gorffennol ac na fyddai byth yn debygol o neud yn y dyfodol. Mae'r ystadegau yn dangos gostyngiad yn nifer y boblogaeth sydd yn pleidleisio – yng Nghymru 85% o'r bobologaeth yn pleidleisio yn 1950 ond yna yn gostwng i 65.7% o'r bobologaeth erbyn 2015. Mae ffigyrau hefyd yn dangos fod llai o bobol ifanc yn gyffredinol yn debygol o bleidleisio – e.e. 44% o bobl ifanc rhwng 18-24 oed yn pleidleisio yn 2010 ond 76% o bobl dros 65 oed yn yr un etholiad.

Fy marn i yw fod Russell Brand yn gwbl gwbl anghywir. Mae'r hawl i bleidleisio yn rhywbeth bu brwydro chwyrn amdano, yn enwedig ymysg merched. Credaf mai dyma'r cyfle i ni fedru datgan go iawn ein barn am bwy ddylai redeg y wlad. Ond, fel llawer o bobl eraill, 'rwyf hefyd yn credu bod na fwy nag un ffordd o newid y byd ...

Ym Mhrydain ac felly yng Nghymru mae gennym rai o'r elusennau mwyaf a gorau yn y byd. Mae iddynt gefnogaeth enfawr ac maent yn gallu mobileiddio degau o filoedd o aelodau a chefnogwyr. Maent yn protestio a gweithio yn ddygn dros newid a maent yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn. Ac, wrth gwrs, mae na ddigon o ddewis o elusennau amrywiol i'w cefnogi waeth beth yw maes eich diddordeb. Waeth beth yr ydych yn teimlo yn gryf drosto mae 'na yn siwr o fod elusen sydd yn hyrwyddo yr achos.

Gallwch wirfoddoli, cyfrannu yn ariannol, ymuno gydag ymgyrchoedd a gwneud gwahaniaeth. Tua 580,000 o aelodau o'r prif bleidiau gwleidyddol sydd 'na ym Mhrydain gyfa' – ond ystyriwch fod elusen fel yr RSPB gyda dros filiwn o aelodau! Mae'n debyg fod na fwy o bobol yn gwneud gwaith gwirfoddol neu yn gweithredu yn gymdeithasol/elusennol na'r nifer wnaeth droi allan i bleidleisio yn yr etholiad ddiwethaf.

Bydd elusennau o gwmpas pan mae'r Llywodraeth nesaf wedi hen fynd. Mae elusennau yn GWNEUD i bethau ddigwydd. Tydyn nhw ddim yn cymryd lle gwasanaethau cyhoeddus fel y cyfryw ond maent yn darparu gwasanaeth a chefnogaeth amhrisiadwy i gymdeithas. Mae eich hosbis lleol, er enghraifft, yn dibynnu yn helaeth ar roddion ac ar fyddin o wirfoddolwyr, mae elusennau ysbytai fel y Cyfeillion Ysbytai yn codi arian i brynu cyfarpar meddygol a hefyd gwneud gwaith gwirfoddol – mae yna restr dibendraw o enghreifftiau fel hyn.

Felly, dros yr wythnosau nesaf, os ydych yn teimlo fel cwyno am y system wleidyddol a'r holl addewidion fydd yn cael eu gwneud – cofiwch mae 'na ffordd arall – mae elusennau yn gallu newid y byd!

Tan Tro Nesa
Bethan

Lansio Loteri Cymru

Mae Hanfod Cymru yn gronfa elusennol genedlaethol newydd sy'n benodol i Gymru, gan ddosbarthu arian a godir at achosion da gan Loteri Cymru i gryfhau bywyd cymunedol yng Nghymru.

hanfod cymru

Y nod yw cefnogi prosiectau lleol, ar hyd a lled Cymru. Fel dyfarnwr grantiau cyffredinol byddwn yn ceisio adlewyrchu anghenion a gofynion y rhai sy'n gwneud cais i ni ond bydd gennym bwyslais cychwynnol ar anghenion cymdeithasol cyffredinol, ar y celfyddydau a chreadigrwydd, ac ar brosiectau addysgol.

Mae'r cynllun grantiau bach yn agored i geisiadau am symiau sy'n amrywio o ychydig gannoedd o bunnoedd i £10,000.

Gwneir cais drwy ffurflen arlein, ac mae'n bosibl y gofynnir i chi am rai dogfennau atodol yn ddibynnol ar natur eich cais. Darllenwch y canllawiau ymgeisio cyn llenwi eich ffurflen gais. Mae manylion pellach ar gael ar: www.hanfodcymru.wales

Cyflwyniad i PQASSO – gweithdy am ddim

A ydych am gryfhau llywodraethu, rheoli risg yn well, darparu gwasanaethau gwell i ddefnyddwyr, gwella arferion gweithredu a dangos canlyniadau'n well yn eich mudiad trydydd sector?
Yna ymunwch â ni yn un o'n gweithdai i gael gwybod mwy am PQASSO.

Bae Colwyn: 6 Mehefin 2017, 10:00am-12:00 canol dydd, Clwb Criced Bae Colwyn

Bydd y gweithdai hefyd yn cyflwyno **Hanfodion PQASSO.** Mae Hanfodion PQASSO yn adnodd hunan-asesu newydd, syml a di ffwdan ar gyfer grwpiau a mudiadau llai y trydydd sector.

Pwy ddylai ddod iddo?
Unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu a chefnogi mudiadau trydydd sector cryf gan gynnwys ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr, cyllidwyr, comisiynwyr a rheolwyr contractau.

I gael gwybod mwy am PQASSO ewch i **wefan NCVO.**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gweithdai, neu i gadw'ch lle, cysylltwch â Heledd Kirkbride, Swyddog PQASSO Cymru: heledd.kirkbride@ncvo.org.uk neu 07376 602320.

Offer cyfieithu Mantell Gwynedd ar gael i'w logi am bris rhesymol iawn. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ymholiadau@mantellgwynedd.com neu ffoniwch 01286 672 626.

PQASSO®

WYTHNOS GWIRFODDOLWYR

Ydi, mae'n adeg yna o'r flwyddyn unwaith eto. Mae Wythnos Gwirfoddolwyr yn ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu cyfraniad gwirfoddolwyr sy'n cael ei gynnal yn yr wythnos gyntaf o Fehefin bob blwyddyn.
Dyma rai o drefniadau Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd eleni:

Digwyddiad Dathlu a Diolch- Mercher 7fed o Fehefin, Portmeirion (drwy wahoddiad yn unig)
Dyma'n prif ddigwyddiad dathlu a diolch lle fyddwn yn cyflwyno tystysgrifau i wirfoddolwyr. Eleni byddwn yng nghwmni ein siaradwraig gwâdd, Elin Fflur.

Ian Pritchard (Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru) yn derbyn ei dystysgrif cyfraniad arbennig

Diwrnodau Agored Gwirfoddoli
Bydd y Ganolfan Gwirfoddoli yn cynnal dau sesiwn drws agored er mwyn codi ymwybyddiaeth, recriwtio gwirfoddolwyr a rhannu gwybodaeth am wirfoddoli. Croeso i bawb ddod draw am sgwrs a phaned.

Dydd Iau, 1af o Fehefin, 10am-2pm
–Swyddfa Mantell Gwynedd, Dolgellau, LL40 1SB
Dydd Mawrth, 6ed o Fehefin, 10am-2pm
–Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon, LL55 1AB

Am ragor o wybodaeth am unrhyw beth ynglŷn â Wythnos Gwirfoddolwyr, cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd ar **01286 672626 neu gwirfoddoli@mantellgwynedd.com**

Heidi Bakwell yn derbyn ei thystysgrif gyda chymeradwyaeth Gwobrau Gwirfoddolwyr (categori Oedolyn) y Flwyddyn 2016

Y gwirfoddolwyr oedd wedi derbyn eu tystysgrifau yn 2016

Gwirfoddolwyr y Mileniwm – Llwyddiannau

Tystysgrif am 50 awr o wirfoddoli:

Dafydd Roberts – Moelyci
Tim Carrol – Royal Voluntary Service
Elin Evans – Gisda a Tenovus

Tystysgrif 100 awr o wirfoddoli:

Ioan Vaughan – Ysgol Dyffryn Nantlle

Wedi cyrraedd tystysgrif 200 awr, gwobr rhagoriaeth:

Craig Roberts – Gisda
Owain Rhys – Cartref Nyrsio y Pwyliaid, Penrhos
Poppy Field - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Elwen Evans - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Callum Abbott - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Melissa Jones - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Oliver McNeill - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Natasha Preston-Jones - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Trinity Rowlands - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Harry Taylor - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Amy Topsana - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)
Tyler Williams - Sgwadron y Corfflu Hyfforddiant Awyr 1557 (Ysgol Friars)



Tim Carrol, Royal Voluntary Service



Dafydd Roberts, Moelyci

Llawlyfr a phecyn cymorth i gynnwys Ymddiriedolwyr Ifanc

Yn ystod Ionawr a Chwefror gwnaethpwyd darn o waith ymchwil ar sefyllfa nifer ymddiriedolwyr ifanc ar fyrddau rheoli mudiadau gwirfoddol yng Ngwynedd. Amlygodd y gwaith ymchwil fod dim digon o wybodaeth ar gael i bobl ifanc nac i fudiadau. O ganlyniad mae Swyddogion Gwirfoddoli ymysg Ieuenctid Gogledd Cymru wedi cydweithio i greu llawlyfr i annog mudiadau i gynnwys pobl ifanc ar eu byrddau rheoli. Mae'r llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth am sut i hyrwyddo, hwyluso a chydnabod gwirfoddolwyr ifanc. Mae Mirain sydd yn aelod o Banel Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd hefyd wedi creu llawlyfr i helpu pobl ifanc ddeall dyletswyddau ymddiriedolwyr. Mae'r llawlyfrau ar gael ar wefan Mantell Gwynedd neu drwy gysylltu hefo Gwenllian Dafydd, gwenllian@mantellgwynedd.com neu 01286 672626.

Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd

Mae'r grant am barhau yn ystod y flwyddyn ariannol yma. Mae hyd at £500 ar gael ar gyfer eich mudiad chi. Cysylltwch â Gwenllian Dafydd am ragor o wybodaeth. gwenllian@mantellgwynedd.com 01286 672626

GWIRFODDOLWYR Y MILENIWM
IVI
MILLENNIUM VOLUNTEERS

Taith Ni - Gofal Croesffyrdd Gogledd Cymru

Fel rhan o'r Gwasanaeth Cefnogi Dementia, mae Gofal Croesffyrdd Gogledd Cymru yn cynnal grwpiau cymorth lleol bob mis i bobl gyda dementia, eu teuluoedd a'u ffrindiau ymhob ardal o Ogledd Cymru.

Ewch draw i ymuno a chael cyfle i gael hyfforddiant, gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth - bydd croeso mawr i chi. Cynhelir y grwpiau o 11.00 y bore hyd 3.00 y prynhawn; cewch aros am yr amser cyfan neu alw draw am gyfnod byrrach os byddai hynny'n well gennych. Mae cinio ar gael (cost ynghlwm).

Dyma'r grwpiau yng Ngwynedd

Porthmadog - dydd Mercher cyntaf o bob mis - Clwb Golff Porthmadog, Morfa Bychan

Caernarfon - 2il ddydd Mercher o bob mis - Gwesty'r Celtic Royal, Caernarfon

Bangor - 4ydd dydd Mercher o bob mis - Ystafell De, Clwb Criced Bangor, Bangor

Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo Lucy Jones ar **07887 367220 / 01492 542212** neu Lucy.Jones@nwcrossroads.org.uk

Digwyddiadau Iechyd a Lles Gofal Canser Macmillan

Digwyddiadau yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth ar:

- Ddiet a gweithgaredd corfforol
- Effeithiau tymor hir posibl y driniaeth
- Rheoli blinder a chefnogaeth emosiynol
- Cyngor ariannol a budd-daliadau
- Cefnogaeth leol yn eich ardal

Bydd cyfle i siarad â gweithwyr proffesiynol a chyfarfod unigolion eraill hefo profiad tebyg.

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael.

Digwyddiadau Gwynedd yn 2017

Plas Menai, Caernarfon - dydd Mercher 21ain Mehefin a dydd Mercher 15fed Tachwedd

Amser: 10.00 y bore-1:00 y p'nawn

I archebu lle, ffoniwch **01745 445214** neu e-bostiwch: BCU.healthandwellbeing@wales.nhs.ukin

Digwyddiad Rhwydwaith Llesiant y Trydydd Sector

Cynhaliwyd y cyfarfod uchod ar Fawrth 28ain yn y Clwb Pêl-droed ym Mhorthmadog. Roedd y Rhwydwaith yn gyfle da i fudiadau dderbyn a rhannu gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd y Rhwydwaith nesaf yn cymryd lle yn mis Gorffennaf a bydd yn sesiwn rhyngweithiol sef *spîd-dêtio* - bydd yn gyfle gwych i fudiadau ddod i wybod mwy am wasanaethau a gweithgareddau eu gilydd. Dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau eto.

Presgripsiwn Cymdeithasol Ardal Arfon

Mae Cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol newydd gynhyrchu DVD yn hyrwyddo'r budd mae'r cynllun yn ei gael ar unigolion, cyfeirwyr a mudiadau'r trydydd sector yn ardal Arfon, Gwynedd. Ers mis Hydref, mae'r cynllun wedi gweithio a helpu dros 70 o unigolion yn amrywio o ran ystod oedran rhwng 21-95 oed, a phob un gyda anghenion penodol. Mae pob unigolyn yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a hefyd yn derbyn gwybodaeth am fudiadau, gwasanaethau, prosiectau, digwyddiadau neu grwpiau yn eu hardal leol.
Mae'r adborth wedi bod yn bositif ac mae'r cyfeiriadau yn gyson.

Os oes gennych wybodaeth ynglŷn â grwpiau newydd, mudiadau neu ddigwyddiadau yna cysylltwch â mi i rannu'r wybodaeth trwy'r ffyrdd canlynol:
Rhian Wyn Griffiths
Swyddog Cyswllt Cymunedol - Presgripsiwn Cymdeithasol
23-25 Bont Bridd, Caernarfon Gwynedd, LL55 1AB
01286 672 626/07940 375467
linc@mantellgwynedd.com
Os hoffech wylio clip o'r DVD yna ewch ar y linc isod ar youtube:
https://www.youtube.com/watch?v=XMTe3jZfRbg&t=17s

Dr Nia Hughes Meddyg Teulu a Dr Adam Richards Ymgynghorydd Cyfrifon Cymdeithasol yn trafod gwerth ac effaith y cynllun Presgripsiwn Cymdeithasol ar y DVD

Prosiect peilot – Presgripsiwn Cymdeithasol ED

Ariennir y prosiect peilot dan sylw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am gyfnod o ddeg wythnos. Mae'r prosiect yn cael ei dreialu ar draws Gogledd Cymru gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ganfod a fyddai ymyrraeth anghlinigol yn lleihau'r pwysau ar Adrannau Brys ysbytai. Yng Ngwynedd, mae'r cleifion wedi mynychu Adrannau Brys - Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Bryn Beryl, Ysbyty Alltwen, Ysbyty Dolgellau ac Ysbyty Tywyn.

Derbyniwyd pumdeg a phump o gyfeiriadau yng Ngwynedd, gyda dau ddeg chwech yn Arfon, dau ddeg pedwar yn Nwyfor a phump ym Meirionnydd. Mae'r nifer o weithiau maent wedi ymweld â'r Adran Frys yn amrywio o ddeg gwaith hyd at dau ddeg naw o weithiau. Hyd yma mae un deg naw wedi cysylltu â'r prosiect ac mae gwybodaeth am wasanaethau lleol wedi ei anfon atynt megis gwasanaethau Teleofal, Y Groes Goch, Cynnal Gofalwyr, Age Cymru, Gofal a Thrwsio ayyb.

Bydd darn o waith i ganfod Gwerth Budd Cymdeithasol yn cychwyn ar ddiwedd y prosiect er mwyn adnabod os oes modd i brosiect o'r fath gynorthwyo i leihau pwysau ar Unedau Brys Ysbytai yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol.

Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Mae'r rhwydwaith yn gyfle da i glywed am adnoddau gwerth cymdeithasol sydd ar gael, i ddysgu ac i rannu ymarfer dda. Cynhaliwyd ein trydydd cyfarfod yng Nghonwy ar y 9fed o Fawrth.

Mae'r rhwydwaith yn cynnwys aelodau o Ganolfannau Gwirfoddol Sirol, Awdurdodau Lleol, mudiadau trydydd sector a Phrifysgolion. Roeddem yn ffodus i gael Ben Carpenter, Social Value UK gyda ni mis Mawrth i drafod adnoddau am ddim i'w defnyddio i fesur gwerth ac sut i roi gwerth ariannol ar ein deilliannau.

Mae gennym gynrychiolaeth o'r rhwydwaith ar Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru hefyd sydd wedi ei sefydlu fel rhan o'r Bwrdd Partneriaethau Gogledd Cymru yn sgîl y ddeddf newydd yng Nghymru.

Mesur effaith Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol, Gogledd Cymru

Rydym wedi bod yn gweithio gyda RASASC Gogledd Cymru i fesur effaith gymdeithasol y gwasanaeth cwnsela i ddioddefwyr o drais rhywiol. Roedd deilliannau y cleiantiaid yn cynnwys **gwell iechyd meddwl a chorfforol, gwell hunan-barch a hyder, ac yn fwy parod i greu a chadw perthnasau.** I nifer, roedd y cwnsela yn rhoi sicrwydd iddynt i ymdopi yn well gyda'r hyn oedd wedi digwydd ac i ymdopi gyda sialensau parhaus pan yn wynebu'r atgofion o hyn oedd wedi digwydd.

Roedd y canlyniad yn dangos am bob £1 a fuddsoddwyd, cafwyd £3.73 o werth ei greu. Drwy weithio'n agos gyda'r staff ac ymddiriedolwyr roedd posib **mesur** yr effaith ond hefyd adnabod sut i gynyddu'r gwerth a chaniatáu iddynt **reoli a gwneud y mwyaf** o'r effaith.

HYFFORDDIANT

Rydym wedi bod yn eithriadol o brysur yn y chwarter diwethaf yn darparu sesiynau hanner diwrnod a diwrnod cyfan ar draws Gogledd Cymru yn cyflwyno gwerth cymdeithasol i ddangos sut i fesur ein heffaith. Roedd yn bleser i ni ddysgu am yr amryw o brosiectau gwahanol a gweld y brwdfrydedd gan unigolion i ddysgu am fesur effaith ac sut i greu rhagor o newidiadau positif ym mywydau pobl.

Os hoffech ddysgu mwy am **fesur, rheoli a gwneud y mwyaf** o'ch gwerth cymdeithasol neu am unrhyw fater a drafodwyd uchod yna cysylltwch gyda Eleri Lloyd.
eleri@mantellgwynedd.com
01286 672 626.

Rhaglen Grant Tesco 'Bags of Help' dan ofal Groundworks Gogledd Cymru

Mae rhaglen grant Tesco 'Bags of Help' yn dyrannu'r arian o'r ffi o 5c godir am bob bag plastig yn archfarchnadoedd Tesco ledled y Deyrnas Unedig.

Yng Ngogledd Cymru, Groundworks Gogledd Cymru sy'n gweinyddu'r arian tuag at gefnogi cyfranogiad cymunedol i ddatblygu a defnyddio mannau agored.

Y mathau o brosiectau neu weithgareddau cymwys y gellid eu hariannu yw hyfforddiant i wirfoddolwyr, gwelliannau i fannau agored, prynu offer, digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

GROUNDWORK
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES

TESCO Bags of Help

Yn dilyn pleidlais gan y cyhoedd, bydd tri phrosiect ym mhob un o ranbarthau Tesco yn derbyn grant bob yn ail fis. Bydd y prosiect a ddaw i'r brig yn derbyn hyd at **£4K**, y prosiect yn yr ail safle yn derbyn **£2K** a'r trydydd yn derbyn hyd at **£1K**.

Rhaid i fudiadau gyflwyno ceisiadau trwy ddilyn y cysylltiad hwn:
http://www.groundwork.org.uk/Sites/tescocommunityscheme

Am fwy o fanylion neu am gymorth pellach gyda'ch cais cysylltwch â Geraint Hughes ar 01978 757 524 neu geraint.hughes@groundworknorthwales.org.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae grantiau hyd at £7,500 ar gael i fudiadau di-elw yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb i wasanaethu rhanbarth neu ardal awdurdod lleol. Mae cyllid ar gael i brosiectau yn y pedwar maes canlynol:

Chwaraeon - Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i gefnogi prosiectau sy'n seiliedig ar wirfoddoli, yn enwedig gan leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gwahaniaeth y gall hyfforddiant ei wneud i ddatblygiad chwaraeon ac yn awyddus i ariannu cyfarpar a chostau hyfforddi os yw'r angen wedi'i ganfod yn glir.

THE MILLENNIUM STADIUM
CHARITABLE TRUST
YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL
STADIWM Y MILENIWM

Y Celfyddydau - Mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu at roi'r cyfle i fwy o bobl fwynhau amrywiaeth y celfyddydau perfformio a gweledol yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ffafrio'n benodol cynigion sy'n ehangu ac yn gwella darpariaeth celfyddydau mewn rhannau o'r wlad lle nad yw'r ddarpariaeth cystal ag ardaloedd eraill a bydd yn rhoi blaenoriaeth i fudiadau sy'n ymdrechu i gydweithio i rannu profiadau, arferion a syniadau.

Yr Amgylchedd - Mae'r Ymddiriedolaeth yn annog ceisiadau yn ymwneud ag ailgylchu, datblygu mannau gwyrdd, datblygu a hyrwyddo arferion gwyrdd a hyrwyddo cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd prosiectau sy'n gwella ansawdd amgylchedd Cymru, yn gwarchod ac yn creu cefn gwlad fywiog, ac yn datblygu ac yn hyrwyddo cynlluniau defnyddio tir cynaliadwy yn cael blaenoriaeth am gymorth.

Y Gymuned - Bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi blaenoriaeth i fudiadau sy'n gobeithio dymchwel rhwystrau cymdeithasol, personol, economaidd neu ddiwylliannol yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i gynorthwyo pobl anabl i herio rhwystrau a bod yn weithgar ac yn weladwy yn eu cymunedau lleol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Gorffennaf 2017 (12 canol dydd).

Mae manylion pellach ar gael ar:
http://www.millenniumstadiumtrust.org.uk/regional-grant-scheme/
neu drwy gysylltu â Sarah Fox,
ffôn: 029 2002 2143
ebost: info@millenniumstadiumtrust.org.uk

Hyfforddiant / Digwyddiadau Mantell Gwynedd

Cymorth Cyntaf Brys

Dyddiad: 21-06-17
Lleoliad: Neuadd Goffa, Penygroes

Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu

Dyddiad: 29-06-2017
Lleoliad: Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon

I gofrestru i fynychu hyfforddiant a nodir uchod cysylltwch ag **Ellen** ar **01341 422575** neu **ellen@mantellgwynedd.com**
Neu os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â
Delyth Vaughan Rowlands ar **01286 672626** neu **delyth@mantellgwynedd.com**

YSTAFELLOEDD / SWYDDFEYDD AR OSOD

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon
Gwynedd LL55 1AB

Yr Hen Swyddfa Heddlu, Y Lawnt
Dolgellau LL40 1SB

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Ceren Williams, Mantell Gwynedd
01286 672 626
ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com

Taith Uned Symudol Mantell Gwynedd yn ystod haf 2017

10 Mehefin	Sioe Dyffryn Ogwen – Bethesda
1 Gorffennaf	Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru – Caernarfon
15 Gorffennaf	Ras Y Wyddfa – Llanberis
23 Awst	Sioe Amaethyddol Meirionnydd – Tywyn
9 Medi	Sioe Amaethyddol Trawsfynydd – Trawsfynydd

Cofiwch fod Uned Symudol Mantell Gwynedd ar gael i'w llogi am bris rhesymol iawn

COSTAU LLOGI'R UNED
Aelodau o Mantell Gwynedd: £130 y diwrnod
(a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).
Defnyddwyr eraill: £150 y diwrnod
(a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod telerau arbennig e.e. defnyddio'r cerbyd yn rheolaidd am gyfnod penodol (gallwn ddod i drefniadau rhesymol iawn).
Cysylltwch drwy e-bostio:
ymholiadau@mantellgwynedd.com
Ffonio: **01286 672 626**
Neu trwy ein gwefan: **www.mantellgwynedd.com**

Hyfforddiant WCVA

Ymwelwch â gwefan WCVA
i chwilio am hyfforddiant
www.wcva.org.uk

facebook.com/mantellg
@MantellGwynedd